

Cofnodion Cyfarfod Arferol o **GYNGORTREF RHUTHUN** gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstey, Rhuthun ar nos Lun, 27 Ebrill 2015 am 7:00 p.m.

**PRESENNOL:** Cyng. Stephen Beach (**Maer - Cadeirydd**)  
Cyng. James Bryan, Elisabeth Culshaw, June Derry, Ken Hawkins, Menna Jones, Simeon Jones, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Geraint Woolford ac Emrys Wynne; hefyd Bobby Feeley, Cyngorydd Sir.

## **220. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gyng. Bob Costain, Rosie Hughes-Moseley ac Heather Williams.

## **221. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Derbyniwyd datganiadau o ddiddordeb personol mewn eitemau ar yr Agenda fel ganlyn:  
Datganodd Cyng. Menna Jones ac Emrys Wynne, fel aelodau o'r Gymdeithas, ddidordeb personol yn yr eitem ganlynol a gadawsant y siambr yn ystod y trafodaethau a'r perffynniad ddilynodd.  
Eitem Agenda Rhif 229 (b) Ceisiadau am Gymorth Ariannol – Cymdeithas Efeillio Rhuthun  
Datganodd Cyng. Anne Roberts, fel aelod o'r Pwyllgor, ddidordeb personol yn yr eitem ganlynol a gadawodd y siambr yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad ddilynodd.  
Eitem Agenda Rhif 229 (c) Ceisiadau am Gymorth Ariannol – Ymlaen Rhuthun

## **222. ADRODDIAD Y MAER**

Dywedodd y Maer ei fod wedi mynychu'r canlynol ers y cyfarfod diwethaf:

26 Maw Cyfarfod i dderbyn cabinet arddangos Lecomber  
27 Maw Gwasanaerth coffa yn Nantclwyd y Dre  
Cinio Siarter Rotary  
30 Maw Cyfarfod CITTASLOW  
31 Maw Beirniadau cystadlaeth y Pasg  
1 Ebr Pwyllgor Grwp Llywio  
10 Ebr Cyflwyno gwobrwyon Cystadlaeth y Pasg  
14 Ebr Hubbub Llys Erw  
15 Ebr Pwyllgor Grwp Llywio  
18 Ebr Dawns Elsuennol Maer Tref Dinbych  
20 Ebr Gwobrwyon Dinesydd Da  
Cyfarfod Bwrdd Ariannol Corff Llywodraethol Ysgol Stryd y Rhos  
21 Ebr Ail-agor siop Sant Cyndeyrn  
22 Ebr Pwyllgor Grwp Llywio  
23 Ebr Apel Ysgol Rydal, Bae Colwyn  
24 Ebr Gwasanaeth Eglwys Abergele  
25 Ebr Cinio Lleng Brydeinig ym Mae Kinmel

## **223. ADRODDIADAU AELODAU**

Cyng. James Bryan	Pwyllgor Rheolaeth Canolfan Awelon, Gwyl Rhuthun
Cyng. Elisabeth Culshaw	Bore Coffi, Pwyllgor Rheolaeth Canolfan Awelon
Cyng. June Derry	Gwasanaeth yn Nantclwyd y Dre, Sioe Flodau Rhuthun, Lleng Brydeinig ym Mae Kinmel
Cyng. Ken Hawkins	Gwasanaeth yn Nantclwyd y Dre
Cyng. Menna Jones	Banc Bwyd, Gwasanaeth yn Nantclwyd y Dre, Bore Coffi yn Llys Marchan
Cyng. Robert Owen-Ellis	Banc Bwyd x 4, Grwp Archwilio Dogfennau, Ysgol Pen Barras x 2

Cyng. Anne Roberts

Ymlaen Rhuthun x 3, Pwyllgor Banc Bwyd x 2, Gwasanaeth yn Nantclwyd y Dre, Grwp Archwilio Dogfennau, Cyfarfod CITTASLOW, Beirniadu Cystadleuaeth y Pasg, Fforwm dros 50 yn Llys Erw, Grwp Dinesydd Da, Grwp Llywio, Gwobrwyon Lleng Brydeinig

Cyng. Emrys Wynne

Gwasanaeth yn Nantclwyd y Dre, Grwp Llywio Lleol.

## **224. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

**PENDERFYNWYD:** *derbyn a mabwysiadu fel cywir cofnodion y Cyfarfod Arferol a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2015*

## **225. MATERION YN CODI**

Nid oedd unrhyw fater yn codi.

## **226. PWYLLGOR AMWYNDERAU**

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ebrill 2015.

**PENDERFYNWYD:** *derbyn y cofnodion.*

## **227. PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ebrill 2015.

**PENDERFYNWYD:** *derbyn y cofnodion.*

## **228. IS-BWYLLGOR ARCHWILIO ARIANNOL**

**PENDERFYNWYD:** *derbyn a mabwysiadu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ebrill 2015.*

## **229. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL**

### **(a) CYMDEITHAS SIOE RHUTHUN**

Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr gan Drysorydd y Mudiad uchod yn gofyn am gyfraniad tuag at gostau'r sioe eleni gynhelir yn Llanfwrog – mae £1,300.00 yn y gyllideb.

**PENDERFYNWYD:** *cadarnhau cyfraniad o £1,300.00 i'r Mudiad yma.*

### **(b) CYMDEITHAS EFEILLIO RHUTHUN**

Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr gan Ysgrifennydd y Mudiad uchod yn gofyn am y cyfraniad blynyddol o £500.00 tuag at gostau'r Gymdeithas Efeillio - mae £500 yn y gyllideb.

**PENDERFYNWYD:** *cadarnhau'r cyfraniad blynyddol o £500.00 i'r Mudiad yma.*

### **(c) YMLAEN RHUTHUN**

Cyflwynodd Clerc y Dref Gais am Gymorth Ariannol (ynghyd a manylion ariannol) gan y Mudiad uchod yn gofyn am gyfraniad o £500.00 tuag at gostau Carnifal Rhuthun eleni.

**PENDERFYNWYD:** *gofyn am ragor o fanylion yn benodol ar gostau cynnal y Carnifal eleni.*

## **230. DIWRNODAU PARCIO RHAD AC AM DDIM**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried Diwrnodau Parcio Rhad ac am Ddim ar gyfer 2015 - mae pum diwrnod ar gael.

**PENDERFYNWYD:** *gofyn am y Sadyrnau canlynol: 4 Gorffennaf – Gwyl Rhuthun; 26 Medi – Drysau Agored Sir Ddinbych; 28 Tachwedd – Marchnad Nadolig a 5 a 12 Rhagfyr – Diwrnodau Siopa Nadolig.*

## **231. GWOBRWYON DINESYDD DA 2015**

Derbyniodd yr aelodau ragor o fanylion a enwebiadau ar gyfer y Gwobrwyon eleni.

## **232. MUDIAD 'CITTASLOW'**

Derbyniodd yr aelodau adroddiad ar lafar ar gyfarfod a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Neuadd y Dref. 'Roedd y cynulliad yn siomedig ac ni fydd y mater yn cael ei barhau.

**233. CYFRIFON AMY FLWYDDYN DYN DIWEDDU 31 MAWRTH 2015**

Cyflwynodd Clerc y Dref y Cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2015.

**PENDERFYNWYD:** *derbyn a chymeradwyo'r Cyfrifon Blynnyddol.*

**234. DATGANIAD ARIANNOL**

Cyflwynodd Clerc y Dref, fel Swyddog Ariannol Cyfrifol, ei Ddatganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31<sup>ain</sup> Mawrth 2015.

**PENDERFYNWYD:** *derbyn a mabwysiadu'r Datganiad Ariannol.*

**235. CYFRIFON I'WTALU**

**PENDERFYNWYD:** *cymeradwyo talu'r eitemau canlynol:*

706	Sandra Williams	Cyfieithu	*	90.00
707	Cyllid y Wlad	Treth ac Yswiriant Gwladol		163.20
708	Clwb Rotary Rhuthun	Cyfraniad tuag at Rasys Mulod a Diwrnod Hwyl		500.00
709	Cymdeithas Ddinesig Rhuthun	Cyfraniad – Drysau Agored Sir Ddinbych		1,000.00
710	Eglwys Sant Pedr	Canu'r Hwyrngloch		156.00
711	Dafydd Williams	Gwrth-firws Norton		39.99
712	Blachere Illuminations	Hurio Goleuadau Nadolig - 2 <sup>ail</sup> flwyddyn o 3.	*	5,768.75
713	Fineline Printing & Stationery	Cyflenwad swyddfa	*	30.84
714	Groundworks NorthWest	Cyflenwi a gosod 2 set o siglen a chadwynau yn Ardal Chwarae Plant, Caeau Chwarae Cofeb.	*	222.00
715	Scottish Power	Goleuadau Nadolig 2014 /15	*	95.63
716	Boyns	Cyfrifiadur Newydd i'r swyddfa	*	1,168.60
717	Cymdeithas Sioe Rhuthun	Cyfraniad		1,300.00
718	Cymdeithas. Efeillio Rhuthun	Cyfraniad		500.00

(Mae'r eitemau a nodir gyda \* yn cynnwys T.A.V. y gellir ei adennill o £1,216.04)

**236. DYDDIADAU CYFARFODYDD NESAF**

**PENDERFYNWYD:** *cadarnhau dyddiadau cyfarfodydd nesaf o'r Cyngor Tref fel a ganlyn:*

Cyfarfod Blynnyddol – Nos Lun, 11 Mai 2015 yn Swyddfeydd y Cyngor am 7:00 p.m.

Cyfarfod Arferol – Nos Fawrth, 26 Mai 2015 yn Swyddfeydd y Cyngor am 7:00 p.m.

